# Heddlu Gwent – effeithiolrwydd

## Trosolwg – Pa mor dda mae'r heddlu yn cadw pobl yn ddiogel a lleihau troseddu?

**Dyfarniad cyffredinol**

●●●○ **Da**

Mae HMIC yn barnu fod Heddlu Gwent yn dda ar gadw pobl yn ddiogel a lleihau troseddu. Gyda chefnogaeth dda gan bartneriaid, mae'r heddlu'n effeithiol o ran atal troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Cafwyd cynnydd da ers canfod fod ymchwiliadau o drosedd angen gwelliant yn 2014; mae'r heddlu nawr yn rheoli ymchwiliadau'n effeithiol. Cafwyd gwelliannau tebyg o ran sut mae'r heddlu'n diogelu pobl fregus rhag niwed. Maent nawr yn cael eu nodi'n well ac yn derbyn gwell cefnogaeth. Mae'r heddlu'n deall ac yn ymateb i droseddau difrifol a chyfundrefnol yn dda. Dyma'r flwyddyn gyntaf i HMIC raddio heddluoedd ar eu heffeithiolrwydd cyffredinol, felly nid yw cymhariaeth blwyddyn ar flwyddyn yn bosibl.

**Crynodeb**

Ar y cyfan mae Heddlu Gwent yn dda ar gadw pobl yn ddiogel a lleihau troseddu. Mae'r heddlu'n atal troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn effeithiol, mae'r rhain yn flaenoriaethau clir i'r heddlu. Mae swyddogion a staff wedi deall y blaenoriaethau hyn yn dda, gan weithio'n agos gyda sefydliadau eraill i ddatrys problemau yn eu cymdogaethau. Mae gwaith ymyrraeth cynnar i lywio pobl ifanc oddi wrth fywyd o drosedd yn rhan fawr o'r ymagwedd hon.

Pan fydd trosedd wedi digwydd, mae'r heddlu'n cyflawni ymchwiliadau o ansawdd uchel. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod dioddefwyr yn ddiogel a'u hysbysu o ran sut mae eu hachosion yn dod yn eu blaen. Mae'r heddlu'n gweithio'n dda i nodi, ymchwilio a dwyn troseddwyr peryglus a thoreithiog i gyfiawnder. Mae atal y troseddwyr mwyaf toreithiog rhag cyflawni troseddau yn ganolog i ymdrechion yr heddlu i ddiogelu cymunedau.

Yn gynyddol, mae'r heddlu yn ffocysu ar yr hyn a elwir yn droseddau cudd megis cam-drin domestig a chamfanteisio'n rhywiol ar blant er mwyn amddiffyn y bobl fwyaf bregus. Barnwyd bod yr ymchwiliadau i droseddau a digwyddiadau yn ymwneud â grwpiau bregus i fod yn dda mewn archwiliad HMIC a gyhoeddwyd yn Rhagfyr 2015.

Mae gan yr heddlu ddealltwriaeth dda o'r bygythiad a gyflwynir gan droseddau difrifol a chyfundrefnol; fodd bynnag, byddai'r ddealltwriaeth hon wedi ei gwella pe byddai mwy o waith yn cael ei wneud gyda sefydliadau partner i asesu'r niwed y gall grwpiau troseddau cyfundrefnol achosi mewn cymunedau.

Mae cyfuniad o staff medrus a phrofiadol iawn yng Ngwent a threfniadau gwaith cydweithredol gyda heddluoedd cymdogol yn darparu llwyfan cadarn i amharu ar ac atal troseddau difrifol a chyfundrefnol.

Mae gan yr heddlu drefniadau sydd ar waith i sicrhau y gall gyflawni ei gyfrifoldebau plismona cenedlaethol.

## Pa mor effeithiol yw’r heddlu o ran atal troseddau, ac ymddygiad gwrthgymdeithasol a chadw pobl yn ddiogel?

**Da**

Mae Heddlu Gwent yn dda ar atal troseddau, ymddygiad gwrthgymdeithasol a chadw pobl yn ddiogel. Mae gan yr heddlu ymroddiad ar bob lefel i gynyddu buddion cydweithio ac mae'n rhannu gwybodaeth yn effeithiol ar lefel sirol a chymdogaeth. Mae hyn yn cadw pobl yn ddiogel, yn rheoli troseddwyr niweidiol yn effeithiol ac yn cefnogi dioddefwyr.

Mae'r ymroddiad hwn yn ymhlyg yng nghynlluniau strategol yr heddlu a chomisiynydd yr heddlu a throseddu (PCC); mae'r gweithlu wedi ei ddeall yn dda ac mae'n cael ei drosi yn rheolaidd i weithgaredd gweithredol.

Mae cyfathrebu uniongyrchol, amserol a diogel rhwng yr heddlu a sefydliadau partner yn effeithiol o ran cefnogi dioddefwyr bregus a rheoli troseddwyr toreithiog. Yn lleol, mae cysylltiadau cryf gyda darparwyr gwasanaethau eraill yn cefnogi cydweithio ar lefel sylfaenol. Mae hyn yn cael effaith bositif ar drosedd, ymddygiad gwrthgymdeithasol a materion eraill sy'n bwysig i bobl leol.

Mae sefydliadau partner yn ganmoliaethus o arweiniad yr heddlu o ran dod â gwasanaethau cyhoeddus ynghyd ar bob lefel. Mae'r buddion yn ystyrlon i ddioddefwyr, grwpiau bregus a'r holl gymunedau mae Heddlu Gwent yn eu gwasanaethu.

## Pa mor effeithiol yw’r heddlu o ran ymchwilio i droseddau a rheoli troseddwyr?

**Da**

Mae ymagwedd Heddlu Gwent i ymchwilio i droseddau a rheoli troseddwyr yn dda. Mae'r heddlu wedi sicrhau cynnydd sylweddol mewn gwella ansawdd a safonau ers archwiliad HMIC o drosedd yn 2014. Mae goruchwylwyr yn gwybod beth sy’n ddisgwyliedig ohonynt. Mae'r heddlu wedi gwella ansawdd ac amseroldeb ei wasanaeth i ddioddefwyr ac fe gyflawnir ymchwiliadau yn defnyddio canllaw cryf a throsolwg cyson gan oruchwylwyr.

Mae gweithdrefnau'r heddlu ar gyfer yr ymchwiliad cychwynnol a dyrniad troseddau cymhleth a heb fod y n gymhleth yn effeithiol. Mae anghenion dioddefwyr wedi eu paru'n dda gyda sgiliau, profiad ac achrediad ymchwilwyr. Mae gan yr heddlu raglen effeithiol ar waith i ddatblygu ei dditectifs. Mae hyn yn sicrhau bod yr heddlu yn cadw cymhwyster ymchwilio yn unol â galwadau cyfredol a rhagweledig.

Mae'r heddlu wedi hybu ei allu i adfer tystiolaeth ddigidol o ddyfeisiau fel tabledi a ffonau deallus sy'n cael eu defnyddio'n gynyddol i gyflawni troseddau. Mae menter ar y cyd gyda Heddlu De Cymru hefyd yn sicrhau bod y gallu i archwilio lleoliadau trosedd yn defnyddio adnoddau fforensig wedi ei sicrhau a chafwyd cynnydd mewn adnabod troseddwyr diolch i wyddoniaeth fforensig.

Mae'r heddlu yn arwain o ran gweithio gyda sefydliadau partner i sicrhau bod troseddwyr rhyw ac unigolion eraill allai gyflwyno niwed i gymunedau wedi eu monitro'n effeithiol.

## Pa mor effeithiol yw’r heddlu o ran diogelu rhag niwed y rhai sy'n fregus, a chefnogi dioddefwyr?

**Da**

Mae Heddlu Gwent wedi sicrhau cynnydd da o ran sefydlu prosesau clir i nodi dioddefwyr mynych a bregus. Mae'r heddlu'n gwneud asesiadau cywir o'r risgiau mae dioddefwyr yn wynebu a'u hanghenion. Mae ymateb Heddlu Gwent i ddioddefwyr yn gyson ac fe fernir bod perfformiad yr heddlu yn dda.

Mae'r heddlu'n rhannu gwybodaeth yn effeithiol gyda sefydliadau partner. Mae hyn yn digwydd naill ai trwy uned gyfeirio'r heddlu neu yn y timau amlasiantaethol a sefydlwyd i gefnogi plant sydd ar goll a diogelu pobl ifanc sydd â rhagdueddiad i

gam-fanteisio rhywiol. Mae ymateb yr heddlu i blant ar goll yn dda, ac fe ganfu HMIC drefniadau sefydledig i nodi a thaclo cam-fanteisio'n rhywiol ar blant.

Mae'r safonau ymchwilio wedi gwella ers eu harchwilio ddiwethaf yn arolygiad troseddau HMIC yn 2014. Mae goruchwyliaeth yn gyffredinol yn well ac mae'r heddlu yn ystyried bregusrwydd yr holl ddioddefwyr yn ofalus, beth bynnag yw natur y drosedd. Mae cam-drin domestig yn flaenoriaeth glir i'r heddlu, sydd wedi sicrhau cynnydd da yn erbyn ei gynllun gweithredu cam-drin domestig.

Yn rhan o'i gynllun gwelliannau gwasanaeth eang, mae'r heddlu hefyd wedi atgyfnerthu ei ymroddiad i ddioddefwyr. Mae'r heddlu nawr yn diweddaru dioddefwyr ar gynnydd ymchwiliadau yn rheolaidd a sefydlir cefnogaeth atodol gan ddarparwyr gwasanaeth partner pan fo angen.

## Pa mor effeithiol yw'r heddlu o ran taclo troseddau difrifol a chyfundrefnol, gan gynnwys ei drefniadau ar gyfer cyflawni ei gyfrifoldebau plismona cenedlaethol?

**Da**

Mae Heddlu Gwent yn dda ar nodi a thaclo grwpiau troseddau difrifol a chyfundrefnol. Dyma'r flwyddyn gyntaf i HMIC raddio heddluoedd ar eu heffeithiolrwydd o ran taclo troseddau difrifol a chyfundrefnol, gan gynnwys trefniadau heddlu ar gyfer sicrhau y gall gyflawni ei ofynion plismona cenedlaethol, felly nid yw cymhariaeth blwyddyn ar flwyddyn yn bosibl.

Mae'r heddlu yn y broses o ddatblygu gwell dealltwriaeth o droseddau difrifol a chyfundrefnol. Mae'r asesiad strategol cyfredol wedi ei briodoli'n bennaf i ddata gorfodi'r gyfraith ac mae cynlluniau ar waith i gynnwys sefydliadau partner i fynd â'r ystyriaeth hwn gam ymhellach.

Mae'r heddlu wedi profi gweithdrefnau sydd ar waith i gynyddu'r Grwpiau Troseddau Cyfundrefnol (OCGs) sy'n achosi'r niwed mwyaf yng Ngwent i'r uned troseddau cyfundrefnol rhanbarthol (ROCU). Mae OCGs sy'n cael eu rheoli o fewn yr heddlu yn cael eu monitro gan swyddogion cyfrifol enwebedig sy'n gwneud defnydd o ystod eang o dactegau i gyfyngu gweithgaredd troseddwyr ac i leihau niwed.

Mae ymateb yr heddlu i fygythiadau cenedlaethol lefel uchel yn yr Adolygiad Plismona Strategol wedi ei bennu gan brif gwnstabl cynorthwyol; mae strwythurau cadarn ar waith i sefydlu parodrwydd yr heddlu i ddelio â'r rhain.

Mae'r heddlu'n cymryd rhan mewn cyfres drwyadl o ymarferion hyfforddiant digwyddiadau mawr gyda heddluoedd eraill yn y rhanbarth. Trwy ddigwyddiadau ffug, mae'r heddlu wedi profi ei ymateb i ymosodiad seiber a byddino swyddogion ar raddfa fawr mewn ymateb i argyfwng.

**Meysydd i'w gwella**

- Dylai'r heddlu ychwanegu data perthnasol o'i asiantaethau partner i'w broffil lleol troseddau difrifol a chyfundrefnol, a sicrhau bod ganddo strwythur partneriaeth leol ar waith gyda chyfrifoldeb dros daclo troseddau difrifol a chyfundrefnol.